**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol**

11 Tachwedd 2021

Cyfarfod ar-lein

**Yn bresennol (cofnodir presenoldeb unigol yn hytrach na chysylltiad sefydliadol):**

Sioned Williams AS - Cadeirydd

Mabon ap Gwynfor AS

Altaf Hussain AS

Andrew Jenkins

Simon Hoffman

Martin Jones

Kelly Stuart

Ross Thomas

Sean O'Neill

Gethin Rees

Nicola Evans

Charles Whitmore

Adele Rose Morgan

Zoe Rylands

Katie Palmer

Hannah Harvey

Rhian Davies

Rocio Cifuentes

Dragan Nastic

Rhian Thomas Turner

Nicola Evans

Paul Dear

Rhian Davies

Croesawodd y Cadeirydd bawb ac esboniodd mai'r cyfarfod hwn oedd cyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol wedi'i adfer. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn teimlo'n ddymunol

adfer y Grŵp Trawsbleidiol o ystyried y sefyllfa bryderus ar hawliau dynol yn gyffredinol yn y DU a'r awydd i wneud cynnydd yng Nghymru gan ddefnyddio pwerau datganoledig.

Cyflwynodd Simon Hoffman ymchwil a wnaed ar ran Llywodraeth Cymru ac adroddwyd arno ym mis Awst 2021 (Hyrwyddo a Chryfhau Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru). Esboniodd brif ganfyddiadau'r gwaith ymchwil ac amlinellodd y prif argymhellion (gan nodi bod cyfanswm o 40 o argymhellion).

Trafododd y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, a fynychwyd gan lawer o gynrychiolwyr o sefydliadau cymdeithas sifil sy'n gweithio ar flaen y gad o ran hawliau dynol, yr ymchwil a'i argymhellion.

Cytunodd pawb a oedd yn bresennol er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei hinswleiddio rhag bygythiadau posibl i ddiogelu hawliau dynol sy'n deillio o'r polisïau a'r ddeddfwriaeth sydd o dan reolaeth Llywodraeth y DU, y dylai Llywodraeth Cymru weithredu argymhellion ymchwil SAEHR mor gyflym â phosib.

Gofynnodd pawb a oedd yn bresennol i'r Cadeirydd ysgrifennu at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd tuag at weithredu'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad SAEHR.

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gytuno gyda'r Cadeirydd a'i ddosbarthu i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Cymdeithas Sifil Cymru ar Hawliau Dynol a rhwydweithiau hawliau dynol eraill ac Aelodau o'r Senedd.